

DYDD GWENER, 28 HYDREF 2022

AT: HOLL AELODAU Y PWYLLGOR PENODI AELODAU

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU RHITH CYFARFOD O'R **PWYLLGOR PENODI AELODAU** A GYNHELIR **AM 10.00 YB DYDD GWENER, 4YDD TACHWEDD, 2022** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

Wendy Walters

PRIF WEITHREDWR

Swyddog Democrataidd:	Martin S. Davies
Ffôn (llinell uniongyrchol):	01267 224059
E-Bost:	MSDavies@sirgar.gov.uk

Wendy Walters Prif Weithredwr, *Chief Executive*,
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
County Hall, Carmarthen. SA31 1JP

PWYLLGOR PENODI AELODAU

GRŴP PLAID CYMRU- 3 Members

Cyng. Jean Lewis (Cadeirydd)
Cyng. Mansel Charles
Cyng. Tyssul Evans

GRŴP LLAFUR - 2 Members

Cyng. Deryk Cundy
Cyng. Tina Higgins

GRŴP ANNIBYNNOL - 1 Members

Cyng. Anthony Davies

HEB GYSYLLTIAD 1 Members

Cyng. Sean Rees

A G E N D A

- 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.**
- 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.**
- 3. YSTYRIED ENWEBIAD Y GRWP LLAFUR, SEF Y CYNGHORYDD MICHAEL THOMAS, I WASANAETHU AR GYNGOR IECHYD CYMUNED HYWEL DDA.**
- 4. YMDDIRIEDOLAETH ORIEL MYRDDIN - YSTYRIED AILBENODI'R CYNGHORYDD CARYS JONES AM DYMOR ARALL YN Y SWYDD.**
- 5. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 22AIN GORFFENNAF 2022.** 5 - 6

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

PWYLLGOR PENODI AELODAU

22 GORFFENNAF 2022

PRESENNOL Councillor M.J.A. Lewis (Cadeirydd)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

W.R.A. Davies

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

J.M. Charles

W.T. Evans

T.M. Higgins

S.L. Rees

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod (Yn y Siambr):

E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;

S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd;

J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd [Cymerwr Cofnodion].

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod (Yn rhithwir):

M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;

E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Y Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP ac o bell: 10:00yb - 10:16yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd D. Cundy.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant.

3. LLOFNODI COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALWYD AR Y 14 GORFFENNAF 2021

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2021, gan eu bod yn gofnod cywir.

4. CYNRYCHOLAETH AR GYRFF ALLANOL

Ystyriodd y Pwyllgor, o ganlyniad i'r Etholiadau Llywodraeth Leol diweddar, restr o Gyrrff Allanol oedd wedi'u hysbysu er mwyn penderfynu a ddylai'r Cyngor wneud/parhau i wneud penodiadau i'r cyrrff hynny. Roedd adolygiad cychwynnol o'r rhestr o gyrrff allanol wedi'i gynnal er mwyn canfod statws y sefydliadau presennol ac enwebiadau gan y grwpiau Gwleidyddol nad oeddent wedi'u penodi gan y Cyngor na'r Cabinet ac a atodir i'r adroddiad yn Atodiad A, ynghyd â'r dogfennau cyfarwyddyd a luniwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a atodir i'r adroddiad yn Atodiad B ac C.

Wrth ystyried y rhestr o enwebiadau i gyrrff allanol, tynnwyd sylw at y ffaith bod camgymeriad yn yr adroddiad mewn perthynas ag enwebiad y Grŵp Llafur ar gyfer Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda.

Fel rhan o'r dull adolygu i gynrychiolwyr adrodd yn ôl ar waith pob corff allanol, ceisiodd yr adroddiad gyflwyno dull 'adrodd yn ôl' trwy gwblhau'r ffurflen Cyrff Allanol - Adroddiad Blynyddol y Cynghorwyr 2022/23 a atodir i'r adroddiad yn Atodiad D.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:

- 4.1 yn dilyn Etholiadau Llywodraeth Leol 2022, yn amodol ar ddiwygio enwebiad y Grŵp Llafur ar gyfer Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda, bod enwebiadau'r grŵp gwleidyddol i gyrrff allanol fel y manylir yn Atodiad A yn cael eu penodi;
- 4.2 bod y ffurflen adrodd yn ôl a atodir i'r adroddiad yn Atodiad D yn cael ei chymeradwyo, a bod angen i Aelodau a benodwyd i wasanaethu ar gyrrff allanol adrodd yn ôl ar gyfarfodydd drwy lenwi'r ffurflen.

CHAIR

DATE